Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Trawsnewid Tirwedd Ddiwylliannol Cymru



# Cyngor Celfyddydau Cymru

Ni yw sefydliad ariannu a datblygu swyddogol y wlad ar gyfer y celfyddydau. Llywodraeth Cymru yw ein prif noddwr. Rydym hefyd yn dosbarthu arian gan y Loteri Genedlaethol ac yn codi arian ychwanegol lle y gallwn o amrywiaeth o ffynonellau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Mae nifer fawr o bobl Cymru yn mwynhau'r celfyddydau ac yn cymryd rhan ynddynt. Mae'r celfyddydau yn rhan hanfodol o'n hunaniaeth genedlaethol. Taflant oleuni ar yr amrywiaeth eang o weithgarwch sy'n sylfaen i fywyd cyhoeddus, a chynnig sylwedd iddynt. O'r celfyddydau ac iechyd i dwristiaeth ddiwylliannol, ac o gelf gyhoeddus i adfywio canol trefi, mae'r celfyddydau yn cynnig ystyr, dilysrwydd a mwynhad i'n bywydau bob dydd. Maent yn creu a chynnal swyddi, yn cyfoethogi addysg, yn dwyn pobl ynghyd, ac yn gwella ansawdd ein bywyd. Mae'r celfyddydau yn cyfri. A dyma pam fod gennym weledigaeth o Gymru greadigol lle mae'r celfyddydau yn ganolog i les y genedl a'i phobl.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Supported by The National Lottery®
Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol

Yn gadarn o blaid • pobl anabl

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

*Clawr:* Llun trwy garedigrwydd MOSTYN

*Ar y dde:* Stwdios Heatherwick, Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth (llun: James Morris)

# Trawsnewid Tirwedd Ddiwylliannol Cymru

Rydym eisiau i bobl yng Nghymru gael eu hysbrydoli gan y celfyddydau a'u cyffroi gan y cyfleoedd sydd ganddynt i fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau. Un o'r ffyrdd y gwnawn hyn yw drwy helpu i greu adeiladau a chyfleusterau i'r celfyddydau sy'n nodedig, yn dal sylw ac yn cydio yn y dychymyg.

Mae gennym rwydwaith o ganolfannau, orielau a lleoliadau celfyddydol, mawr a bach, ledled Cymru. Mae ymwneud arferol llawer o bobl gyda'r celfyddydau yn digwydd drwy un o'r llefydd hyn. Ar eu gorau, mae'r sefydliadau hyn nid yn unig yn cynnig rhagoriaeth yn eu holl waith, ond mae'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu hefyd yn rhan annatod ohonynt. Mae'r sefydliadau hyn yn hyrwyddo rhaglenni amrywiol o weithgarwch o ansawdd, ac yn gweithredu fel entrepreneuriaid diwylliannol, yn comisiynu ac yn curadu gwaith newydd, yn gwneud defnydd o'r gwaith hwnnw (drwy fynd ar daith neu gyd-gomisiynu), ac yn cynnig y gofod, y cyfleoedd a'r gwasanaethau sy'n helpu artistiaid i ddatblygu a thyfu eu gwaith.

Cynnig blas yn unig o'r gweithgarwch a wna'r cyhoeddiad hwn.



# Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth

Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth, yw'r prif leoliad ar gyfer y celfyddydau byw yng nghanolbarth gorllewin Cymru. Caiff ei rheoli a'i gweithredu gan Brifysgol Aberystwyth. Y mae Canolfan y Celfyddydau yn ganolbwynt bywiog i'r celfyddydau sy'n cyflwyno rhaglen reolaidd o gerddoriaeth, theatr a dawns o ansawdd uchel (gan gynnwys ei sioe gerdd boblogaidd yn yr haf sy'n chwarae am 4-5 wythnos) a rhaglen barhaus o weithgareddau addysg, gweithdai, dawns a gweithgareddau paratoadol eraill. Y mae hefyd yn cyflwyno rhaglen reolaidd o arddangosfeydd cyfoes yn y ddwy oriel, mae'n cynnal amrywiaeth o ddosbarthiadau dawns ac mae'r caffi, sydd â golygfeydd dros y môr, yn fan poblogaidd ar y campws i gwrdd a chymdeithasu. Mae Canolfan y Celfyddydau yn ffocws a chymorth pwysig i artistiaid a busnesau creadigol yng ngorllewin Cymru ac yn gyfrannwr hanfodol i economi ymwelwyr yr ardal.

Darparodd Cyngor Celfyddydau Cymru gyllid cyfalaf tuag at brosiect diwydiannau creadigol eiconig y Ganolfan a greodd 12 o stiwdios creadigol annibynnol mewn lleoliad uwch yn y coed yn agos at brif adeilad canolfan y celfyddydau ar y campws. Dyluniwyd yr adeiladau gan Heatherwick Studio, y penseiri a'r dylunwyr sy'n adnabyddus yn genedlaethol ac a enillodd wobrau am eu gwaith (sy'n enwog am sawl darn o waith o amlygrwydd cenedlaethol gan gynnwys cerflun fflam y Gemau Olympaidd yn Llundain), ac fe'u dyluniwyd mewn ffoil metelig cryf sy'n adlewyrchu golau ar draws yr holl safle, ac maent yn ymarferol ac yn gerfluniol.

Diben Prosiect y Stiwdios Creadigol oedd datblygu rôl Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth, yn ganolbwynt creadigol i fusnesau'r celfyddydau, asiantaethau datblygu'r celfyddydau, artistiaid a chrefftwyr. Wrth ddarparu gofod gweithdy/stiwdio i fusnesau creadigol ac ymarferwyr y celfyddydau, mae Canolfan y Celfyddydau wedi creu canolbwynt i'r diwydiannau creadigol mewn ardal lle mae gwasgariad ac arwahanrwydd artistiaid a busnesau creadigol yn fater o bwys. Mae'r cymysgedd o artistiaid a busnesau preswyl yn nodwedd unigryw o'r datblygiad hwn, wrth i breswylwyr newydd a sefydledig ryngweithio mewn amgylchedd ysgogol i wireddu eu potensial economaidd a chreadigol.

Costiodd Prosiect y Stiwdios Creadigol £1.4 miliwn ac fe'i gwnaed yn bosibl drwy gymorth Prifysgol Aberystwyth, Cronfa Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru. Roedd yr Unedau yn un o ddim ond 18 o adeiladau yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon i dderbyn Gwobr yr Ymddiriedolaeth Ddinesig yn 2011 a'r unig adeilad yng Nghymru i gael ei ddewis. Enillodd yr Unedau Creadigol hefyd Wobr yr RIBA am adeilad sydd o safonau pensaernïol uchel ac sy'n cyfrannu'n sylweddol i'r amgylchedd lleol.

Mae Canolfan y Celfyddydau bellach yn llunio cynllun cyfalaf pellach i adnewyddu ei brif ofod cyngerdd/theatr a chreu cyfleusterau cynhyrchu newydd i sicrhau y gall y Ganolfan gynnal ei safle fel lle sy'n cyflwyno a chreu cynyrchiadau o ansawdd uchel ym maes y celfyddydau byw. Mae'r stiwdios arloesol yn denu sylw sylweddol gan asiantaethau eraill ac ymwelwyr o bob rhan o'r Deyrnas Unedig ac maent wedi helpu i godi proffil a hybu enw da Canolfan y Celfyddydau fel canolbwynt ymarfer celfyddyd a dylunio cyfoes arloesol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.








Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth
(lluniau: Robert Williams)

# Ballet Cymru

Sefydlwyd Ballet Cymru ym 1986 i fod yn dirnod ar gyfer ballet clasurol o ansawdd yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig. Y mae'n gwmni dawns clasurol sy'n ymrwymedig i arloesedd mewn dawns a ballet clasurol, gan gydweithio â'r coreograffwyr, y dylunwyr, y cyfansoddwyr a'r cerddorion gorau oll. Mae Ballet Cymru bob amser yn ymdrechu i greu cynyrchiadau newydd a chyffrous gan ymweld â lleoliadau ledled Cymru a thu hwnt a chydweithia mewn partneriaethau ag amrywiaeth o artistiaid o Gymru gan gynnwys Sinfonia Cymru, Cerys Matthews, Catrin Finch a Llŷr Williams.

Dyma gwmni sydd â gwreiddiau a chysylltiadau da yn y gymuned. Caiff ei waith addysg ei gefnogi drwy raglen DUETS Sefydliad Paul Hamlyn mewn cydweithrediad â Dawns Rubicon. Y mae hefyd yn cynnal Rhaglen Cydymaith Ballet ac ysgol haf ryngwladol. Derbyniodd Ballet Cymru glod cenedlaethol ac ers derbyn statws cyllid refeniw gan Gyngor Celfyddydau Cymru, dechreuodd wireddu ei botensial fel cwmni cenedlaethol i Gymru.

Am dros 28 mlynedd, breuddwydiai'r Cwmni am gael ei adeilad ei hun. Derbyniodd gyllid cyfalaf y Loteri o £353,000 gan Gyngor Celfyddydau Cymru i gynorthwyo i brynu ac adnewyddu adeilad yn ardal Rogerstone yng Nghasnewydd a chreu stiwdio dawns/ymarfer addas i'w weithgarwch proffesiynol a'i raglenni addysg. Cafodd y prosiect a gostiodd £589,000 gymorth hefyd gan nifer o geisiadau llwyddiannus am gyllid gan ymddiriedolaethau a chymorth gan roddwyr unigol.

Ym mis Mawrth 2014, dechreuodd y cwmni ymarfer yn ei stiwdio ddawns newydd, bwrpasol a chwbl hygyrch. Nid yn unig y darparai lawer gwell lle i weithio ynddo, ond roedd hefyd yn lleihau costau stiwdio a chostau eraill.

Defnyddir y cyfleuster pwrpasol yn rheolaidd gan yr Academi Ddawns Frenhinol a Chymdeithas Ballet Cecchetti. Mae llogwyr bellach yn archebu'r stiwdio fisoedd ymlaen llaw a defnyddiwyd y gofod i ddod o hyd i ddawnswyr ifanc dawnus ar gyfer y cynhyrchiad yng Nghaerdydd o *'Lord of the Flies'* gan Matthew Bourne.

Llogwyd y lle gan amryw sefydliadau ac artistiaid annibynnol gan greu incwm newydd o fwy na £10,000 yn 2015. Yn ychwanegol, mae'r Cwmni bellach yn cymryd camau i greu adeilad mwy cynaliadwy ac eco-gyfeillgar a fydd yn lleihau costau. Llofnododd Siarter Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, gan sicrhau bod y cwmni yn parhau i herio ei hun i fod yn esiampl yn y maes hwn.

Enillodd y Cwmni wobr am y Cynhyrchiad Dawns Gorau ar Raddfa Fawr am Romeo a Juliet yng Ngwobrau Beirniaid Theatr Cymru yn 2014 a chafodd ei enwebu yn Gwmni Annibynnol Gorau 2015 yng Ngwobrau Dawns Cenedlaethol Cylch y Beirniaid. Mae Ballet Cymru yn ymrwymedig i ddatblygu amrywiaeth yn y celfyddydau ac ers llawer o flynyddoedd bu'n gweithio'n gynhwysol (e.e. prosiect llawn ysbrydoliaeth 'Stuck in the Mud' mewn cydweithrediad â GDance). Derbynia Ballet Cymru gymorth ariannol gan Gyngor Dinas Casnewydd, nifer o ymddiriedolaethau a Chylch Ballet Llundain.

Mae'r prosiect hwn yn helpu Ballet Cymru i wella ansawdd ei waith; lleihau costau gweithredu; cynhyrchu incwm a chyllid newydd; cynorthwyo cwmnïau dawns ac ymarferwyr annibynnol eraill; a datblygu canolfan ragoriaeth ym maes dawns, gan gynnig rhaglenni hyfforddiant hygyrch. Yn ychwanegol, yn sgil ei bresenoldeb a'i weithgareddau yng Nghasnewydd, y mae'n cyfrannu at adfywiad diwylliannol Casnewydd drwy gynorthwyo adfywiad y ddinas.









▲ Stiwdio Ballet Cymru

▶ *Celtic Concerto*
Ballet Cymru, Catrin Finch a Sinfonia Cymru
*Traces Imprinted* gan Marc Brew
Ballet Cymru

(Lluniau: Sian Trenberth)

# Chapter

Chapter yw un o'r prif ganolfannau yn y Deyrnas Unedig ar gyfer y celfyddydau newydd a chyfoes ar draws y ffurfiau ar gelfyddyd. Mae iddi broffil cenedlaethol a rhyngwladol a chanddi gysylltiadau â maes y celfyddydau cyfoes ar draws Cymru, y Deyrnas Unedig a'r byd. A hithau wedi'i lleoli mewn ardal breswyl yng ngorllewin Caerdydd, mae Chapter yn labordy i'r celfyddydau mewn cymuned fyw. Cyflwyna a chynhyrcha'r gelfyddydau, perfformiadau a ffilmiau rhyngwladol mewn amrywiaeth o ofodau, ac mae'n gartref i nifer o gwmnïau ac ymarferwyr blaenllaw yn y celfyddydau.

Er ei bod wedi'i lleoli y tu allan i ganol y ddinas, mae gan Chapter wreiddiau dwfn yn ei chymuned ac mae'n adnabyddus am ei gofod cymdeithasol deinamig. Caiff ei defnyddio gan bobl o bob math o gefndiroedd ac mae'n ganolfan gymdeithasol i'r ardal leol. Fel prif sinema annibynnol Cymru, derbynia £200,000 y flwyddyn gan y Sefydliad Ffilm Prydeinig. Y mae hefyd yn rheoli prosiect Coreo Cymru – y Cynhyrchydd Creadigol ar gyfer Dawns yng Nghymru. Chapter yw partner arweiniol y British Dance Edition ym mis Mawrth 2016, ac mae'r bartneriaeth fuddsoddi yn cynnwys cymorth i'r ŵyl gan Gyngor Celfyddydau Lloegr a Creative Scotland.

Mae Chapter hefyd yn gweithredu cyfadeilad ar wahân ar gyfer diwydiannau creadigol. Gan ddarparu gweithle i fwy na 30 o fentrau ym maes y celfyddydau a'r cyfryngau, y mae'n creu incwm blynyddol sylweddol a gaiff ei ailfuddsoddi yn y rhaglen ddiwylliannol. Mae'r gymuned breswyl greadigol a bywiog hon yn rhoi chwistrelliad o egni i Chapter, gan ffurfio cysylltiadau, cyweithiau creadigol newydd a mentrau busnes. Caiff amrywiaeth eang o gynadleddau, seminarau a chyfarfodydd eu cynnal yn Chapter hefyd ac y mae'n adnodd poblogaidd i sectorau gwirfoddol, addysg  a masnachol y ddinas.

Mae adeilad mawr gwasgarog Chapter, a arferai fod yn ysgol, yn heriol o ran cynnal a chadw a'i weithredu. Bu i gyllid cyfalaf o £2.1m gan Gyngor Celfyddydau Cymru gynorthwyo cynllun cyfalaf o £3.5m i ail-ddylunio'r cyntedd a'r caffi a rhywfaint o waith i wella cyfleusterau'r adeilad a'r modd y mae'n gweithredu.

Y caffi mwy estynedig a'r patio yw craidd cymdeithasol a gweithredol Chapter, ac mae yno le i fwy na 120 o bobl eistedd mewn gofod cyfeillgar a hygyrch sydd â wifi am ddim. Caiff y gofod cymunol pwysig hwn ei ddefnyddio i gynnal cyfarfodydd ffurfiol ac i gwrdd yn anffurfiol, yn ogystal â chan gynulleidfaoedd a chyfranogwyr gweithdai. Mae'n creu incwm sylweddol ac yn rhan bwysig o apêl yr adeilad fel lleoliad masnachol a chynadleddau.

Yn dilyn y cynllun adnewyddu cyfalaf sylweddol, bu i'r gweithgarwch masnachu gael ei drawsnewid. Mae bellach gan Chapter Trading (ei is-gwmni masnachu) drosiant o fwy nag £1.7m, a chaiff £340,000 o hyn ei dalu yn ffi reoli i'r elusen. Y mae hefyd yn cynhyrchu tua £200,000 y flwyddyn drwy logi, lletygarwch ac incwm cysylltiedig; yn ogystal ag incwm o docynnau theatr a sinema a gwerthiant y siop. Daw tua 750,000 o bobl y flwyddyn drwy ddrysau Chapter.

Y mae Chapter yn gyflogwr sylweddol yn y ddinas ac mae ar flaen y gad wrth ddatblygu sector cynyddol y diwydiannau creadigol, gan gyflogi 120 o bobl ar draws yr elusen a'r cwmni masnachu. Gan gyfuno hynny â chyflogeion y cwmnïau creadigol sy'n seiliedig yn Chapter, mae bron i 300 o bobl yn gweithio'n uniongyrchol o'r ganolfan. Bu buddsoddiad gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn hanfodol i gynorthwyo cynllun sydd bellach yn sylfaen i gynaliadwyedd Chapter.







▲ Chapter
(llun: Robert Williams)

▶ *I loved you and I loved you*
Rhaglen Comisiynau Datblygu Coreo Cymru
o'r Sweetshop Revolutions
(llun: Danilo Moroni)

# Galeri

Agorwyd Galeri yn 2005 yn ganolfan amlddefnydd i'r celfyddydau a mentrau creadigol wedi'i lleoli yn Noc Fictoria, Caernarfon. Mae'r ganolfan yn cynnwys theatr 400 sedd; dwy stiwdio; 24 uned waith a llogi; 8 ystafell wrthsain; 2 ystafell gyfarfod fawr; bar; a chaffi. Yn 2009/10, estynnwyd y theatr er mwyn gallu croesawu cynyrchiadau theatr mwy o faint. Mae Galeri yn cyflwyno rhaglen reolaidd o arddangosiadau, perfformiadau byw proffesiynol a chymunedol a ffilmiau. Mae'r ganolfan hefyd yn cynnal gweithdai a rhaglenni addysgol sy'n cynnwys SBARC! i bobl ifanc, ac mae'n gartref i 15 o fusnesau annibynnol ym maes y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol.

Crewyd Galeri i fod yn ganolfan integredig i'r celfyddydau a'r diwydiannau creadigol, gyda ffocws cryf ar adfywio lleol a chymorth i'r sector creadigol yng Ngwynedd. Tyfodd y prosiect cyfalaf o waith Cwmni Tref Caernarfon Cyf, menter gymunedol nid-er-elw sy'n gweithredu fel Ymddiriedolaeth Ddatblygu. Gweithiodd yr asiantaeth adfywio hon i adfer ac ailddatblygu eiddo gwag yn hen dref Caernarfon a rhoi bywyd newydd iddynt fel cyfleusterau manwerthu a gweithdai. Newidiodd Cwmni Tref Caernarfon ei enwi i Galeri Caernarfon Cyf yn 2006.

Dros nifer o flynyddoedd, bu gwaith yr Ymddiriedolaeth yn y gymuned yn helpu i ganfod cymuned sylweddol a gweithgar o fusnesau ac unigolion ym maes y celfyddydau, crefftau, y cyfryngau a meysydd creadigol eraill. Roedd diffyg lleoliad modern yng Nghaernarfon i gynnal arddangosiadau a chynyrchiadau celfyddydol byw a datblygwyd y cynllun cyfalaf i ddwyn ynghyd y ddau brif faes hwn o weithgarwch creadigol. Nod allweddol y sefydliad yw:

*'gweithredu prosiectau cynaliadwy mewn ffordd integredig i wireddu potensial diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol y gymuned leol a'i hamgylchedd.'*

Roedd Cwmni Tref Caernarfon Cyf eisiau gwneud cyfraniad diriaethol i'r economi lleol ac roedd cynaliadwyedd yn greiddiol i'r cynllun cyfalaf. Roedd cysyniad Galeri felly yn seiliedig ar gyfleuster integredig a gyfunai ofod i'r diwydiannau creadigol, gofod i weithgarwch a lleoliad i'r celfyddydau byw ac arddangosiadau, ynghyd â darpariaeth arlwyo a manwerthu o safon.

Bu datblygu Galeri yn sbardun i ailddatblygu Doc Fictoria, a hynny cyn y cynlluniau presennol i ddatblygu cyfleusterau manwerthu, arlwyo a gwestai yn y lleoliad, a chan ategu'r cynlluniau hynny. Mae Galeri, sydd o fewn pellter cerdded i'r hen dref a'r castell, gyda'i gaffi deniadol ar ymyl y doc a golygfeydd tua'r môr, bellach yn gyrchfan poblogaidd i ymwelwyr gan gefnogi economi'r dydd a'r nos a diwallu anghenion y gymuned breswyl drwy ei rhaglenni creadigol.

Mae Galeri bellach wedi cychwyn ar gynllun cam 2 i greu sinema newydd 2 sgrin a chaffi gwell. Bydd hyn yn ei alluogi i ateb galw lleol a chynnig rhaglen fwy cynaliadwy o ffilmiau a fydd yn ymestyn y ddarpariaeth ddiwylliannol ac yn cynhyrchu gwargedau ariannol i'r ganolfan. Mae cyllid wedi'i sicrhau gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, Llywodraeth Cymru. Hyd yma, buddsoddodd Cyngor Celfyddydau Cymru £3.26m tuag at gyfanswm costau prosiect cyfalaf o £8.2m.

Yn 2013, enillodd Galeri Wobr Menter Gymdeithasol Cymru yn gydnabyddiaeth o'i waith caled a'i gyraeddiadau.





'gweithredu prosiectau cynaliadwy mewn ffordd integredig i wireddu potensial diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol y gymuned leol a'i hamgylchedd.'



▲ Galeri, Caernarfon
(llun: Robert Williams)

▶ SBARC!
(llun trwy garedigrwydd Galeri)

# MOSTYN

Sefydlwyd Oriel Gelf MOSTYN ym 1901 gan y Fonesig Augusta MOSTYN. Ar ôl i'r oriel fod ar gau am gyfnod, cafodd ei hailagor ym 1978 yn ganolfan ar gyfer celf gyfoes, yn sgil ymgyrch a arweiniwyd gan yr arlunydd Kyffin Williams. Enillwyd gwobr am y gwaith a wnaed i ailddatblygu'r oriel yn 2010 a chafwyd canmoliaeth eang. Gyda mwy na 10,000 o'i hymwelwyr blynyddol yn iau na 18 oed, llwydda MOSTYN i gyflwyno celf gyfoes i gynulleidfaoedd newydd drwy raglen fywiog o arddangosfeydd a digwyddiadau.

Chwaraea'r oriel rôl bwysig wrth gefnogi diwydiant twristiaeth Llandudno, gan groesawu tua 80,000 o ymwelwyr y flwyddyn, gydag 20,000 arall yn mynychu rhaglenni ac arddangosfeydd oddi ar y safle. Mae'r adeilad, a enillodd fedal aur yr RIBA, yn cyfuno'n gelfydd ffasâd terracotta ac orielau gwreiddiol 1901 yr oriel a gofodau oriel newydd, caffi a gofod manwerthu o ansawdd uchel ar lefel y stryd sy'n denu amrywiaeth eang o gwsmeriaid.

Rhoddodd MOSTYN chwistrelliad o egni i adfywiad diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd Llandudno a'r ardal. Gall ddangos budd economaidd (Gwerth Ychwanegol Gros) sy'n rhoi £3 i'r ardal leol am bob £1 o fuddsoddiad cyhoeddus. Cefnogwyd yr ailddatblygiad gwerth £5.3 miliwn gan arian celfyddydol y Loteri o £3.26m gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Amcangyfrifir ei fod wedi cefnogi mwy na 60 o flynyddoedd person o gyflogaeth adeiladu. Hefyd, mae'r oriel bellach yn cyflogi 17 o swyddi cyfwerth ag amser llawn.

Taniodd y datblygiad egni ac uchelgais creadigol newydd ym MOSTYN. Yn 2013, bu i MOSTYN ac Oriel Davies gyd-guradu Pafiliwn Cymru yn Fenis yn y 55ed Biennale, gyda 'The Starry Messenger', arddangosfa gan Bedwyr Williams – gwaith poblogaidd a dderbyniodd glod y beirniaid. Yn agosach at gartref, yn 2012 gweithiodd MOSTYN mewn partneriaeth â ffermwyr lleol a dau artist rhyngwladol i guradu gosodiad ar raddfa fawr ar fywyd a hanes ffermio lleol. Yn 2013 lansiodd MOSTYN Benwythnos Celfyddydau Llandudno – LLAWN – a gynhelir yn flynyddol mewn mannau cyhoeddus ac adeiladau gwag ledled Llandudno.

Cyfranna siop, oriel, caffi a gwasanaeth llogi ystafelloedd MOSTYN at chwarter cyllideb weithredol yr oriel. Drwy gefnogi datblygiad masnachol artistiaid a dylunwyr-wneuthurwyr lleol, nod MOSTYN yw sicrhau ffrwd refeniw sefydlog. Mae caffi MOSTYN, Caffi Celf, yn lleoliad cymdeithasol ynddo'i hun a gwneir mwyfwy o ddefnydd ohono fel lleoliad i gynnal digwyddiadau.

Mae MOSTYN bellach yn un o 34 o orielau sy'n rhan o rwydwaith cenedlaethol Plus Tate UK o orielau a chanolfannau celf sy'n cynnwys orielau rhanbarthol sylweddol megis Baltic, Turner Contemporary Margate, Ikon Birmingham a Hepworth Wakefield. Mae'r rhaglen hon yn gyswllt rhwng grŵp o sefydliadau eithriadol ym maes celfyddydau gweledol sy'n elwa o gasgliad, maint, brand ac arbenigedd Tate. Mae'r rhwydwaith yn creu mynediad at waith o bwys cenedlaethol ac yn helpu i ddatblygu cadernid sefydliadol.









▲ MOSTYN, Llandudno

▶ Galeri 1
(lluniau © MOSTYN)
Guillermo Weickert a Maria Cabeza de Vaca
*LLAWN03* (llun: Paul Sampson)

# Theatr Mwldan

Gyda chymorth o £3.45m o raglen gyfalaf Loteri y Celfyddydau, dros y 10-15 mlynedd diwethaf bu Mwldan yn trawsffurfio ei hun o fod yn theatr/canolfan y celfyddydau ar raddfa fach i fod yn fenter gymunedol ddeinamig a llwyddiannus iawn gyda chyfanswm buddsoddiad cyfalaf o £9.7m. O ganlyniad i'r mentrau a roddodd ar waith a'r buddsoddiad a gafwyd, mae mwy na 300,000 o bobl bellach yn dod i Mwldan bob blwyddyn, gan greu trosiant blynyddol o fwy na £1.2m, gyda 75% ohono yn incwm a enillir.

Mae Mwldan yn llawer mwy na lleoliad ar gyfer y celfyddydau byw ac arddangosfeydd. Mae dau o'r tri awditoriwm sydd yno yn gweithredu fel sinema ac yn dangos amrywiaeth eang o ffilmiau yn wythnosol, gan gynnwys dangosiadau cyntaf, 3D a darllediadau digidol byw gan gwmnïau cenedlaethol a rhyngwladol. Gwnaed hyn yn bosibl yn sgil buddsoddiad cyfalaf Loteri y Celfyddydau a alluogodd Mwldan i greu trydydd awditoriwm a chyflwyno mwy na 3,000 o ddangosiadau y flwyddyn. Mae Mwldan hefyd yn cyflwyno rhaglen broffesiynol o gelfyddydau byw ar draws holl ffurfiau'r celfyddydau drwy gydol o flwyddyn, gan gynnwys perfformwyr a chwmnïau sy'n adnabyddus ar lefel genedlaethol a rhyngwladol.

Mae sawl agwedd i Mwldan; gweithia gyda pherfformwyr profiadol ac addawol a chydweithia â chwmnïau a lleoliadau eraill i greu cynyrchiadau cerddoriaeth a theatr traddodiadol a'r byd a mynd â hwy ar daith. Yn dilyn llwyddiant gwaith comisiwn gan Billy Cobham ac Asree yn 2007, mae Mwldan ers hynny wedi comisiynu a mynd ar daith gyda Catrin Finch gan gydweithio â cherddorion eraill megis Seckou Keita o Senegal sy'n chwarae'r kora. Mae wedi rheoli cyfanswm o fwy na 60 o deithiau i leoliadau ledled Cymru, y Deyrnas Unedig a thramor. Datblygodd y maes hwn o waith i fod yn wasanaeth rheoli a chymorth teithio llawn i artistiaid, a thrwy ei phrosiect '*Cylch Canu*', gweithia i ddatblygu cerddorion ifanc dawnus a mynd â hwy ar daith. Mae Mwldan hefyd yn datblygu ei label recordio ei hun.

Cefnoga Mwldan y gymuned leol drwy ei rhaglenni a'i gweithgareddau, ond hefyd drwy ei his-gwmni ei hun – Theatr Mwldan Media Development – sy'n gweithredu'r ganolfan fusnes greadigol a grewyd drwy gyllid cyfalaf Loteri y Celfyddydau yn 2002/3. Mae'r cyfleuster hwn yn darparu gofod gweinyddol a gweithdai i nifer o fusnesau ac asiantaethau trydydd sector lleol, gan gynnwys Archi-Tech (penseiri); papur newydd y Teifiside; Blue West, cwmni ymchwil marchnata; ac SEL Internet. Caiff stiwdio'r ganolfan ei llogi'n ddyddiol i ysgol ddawns leol.

Mae Mwldan yn sefydliad uchelgeisiol sydd a'i olygon yn eang. Nid yn unig y chwaraeodd rôl bwysig wrth gynorthwyo a chyfrannu at adfywiad cymdeithasol, economaidd a diwylliannol yr ardal, ond y mae hefyd wedi estyn allan ledled Cymru gan gynorthwyo lleoliadau ac ymarferwyr creadigol eraill. Bu'n arwain ar fenter ffilm genedlaethol i osod offer taflunio digidol mewn theatrau a chanolfannau'r celfyddydau ledled Cymru, gan gyflawni prosiectau llwyddiannus yng Nghanolfan Gelfyddydau Taliesin, Theatr Torch, Theatr Harlech a Chanolfan Gelfyddydau Glannau Gwy yn Llanfair-ym-Muallt. Mae datblygiadau pellach ar y gweill ym Mlaenau Ffestiniog, Blaenafon a'r Barri. Bydd y datblygiadau hyn yn sylfaen i hyfywedd arddangos ffilmiau yn yr holl leoliadau dan sylw gan sicrhau'r safonau uchaf o gysylltedd digidol. Dyma un enghraifft arall o ymagwedd flaengar a chydweithredol Mwldan, a'i hymrwymiad i greu model busnes cynaliadwy.









▲ Awditoriwm, Theatr Mwldan
(llun: Robert Williams)

▶ Catrin Finch a Seckou Keita
(llun: Andy Morgan)

# Pontio

Mae Pontio yn gysyniad newydd o ganolfan i'r celfyddydau ar gampws Prifysgol. Cafodd ei chreu gan Brifysgol Bangor, ac mae'n adlewyrchu'r arloesedd a'r cyfleoedd a all godi pan fo'r celfyddydau a'r gwyddorau yn cyd-breswylio  Daw Pontio yn lle'r Theatr Gwynedd flaenorol ac mae wedi'i dylunio i fod yn *'Ganolfan y Celfyddydau Perfformio ac Arloesedd o ansawdd byd-eang . . . tirnod diwylliannol i Gymru, hyrwyddwr y Gymraeg a chanolbwynt i'r gymuned leol.'*

Mae cysyniad Pontio yn hybu dysg ac ymchwil, ac yn ysgogi gweithgarwch creadigol newydd drwy ddwyn meysydd y celfyddydau, gwyddoniaeth a thechnoleg at ei gilydd mewn partneriaethau newydd ac archwiliadol. Mae'r adeilad trawiadol hwn yn codi proffil Bangor ac yn hybu posibiliadau buddsoddi ac adfywio yng ngogledd Cymru.

Pontio yw'r cyfleuster oedd ei angen ar y gymuned leol. Mae'n darparu amrywiaeth o gyfleusterau'r celfyddydau gyda theatr hyblyg amlddefnydd sydd â seddi i hyd at 480 o bobl; stiwdio 120 o seddi; sinema 200 o seddi; a gofod perfformio allanol.

Bydd canolfan y celfyddydau perfformio yn cyflwyno cwmnïau'r celfyddydau cenedlaethol a rhyngwladol gorau ynghyd ag amrywiaeth o gynyrchiadau theatr a cherddoriaeth teithiol eraill o ansawdd uchel, yn ogystal â'i chyfres lwyddiannus o gyngherddau. Bydd gwaith a ddatblygwyd yn y gymuned neu a gyflwynir gan sefydliadau lleol a chynyrchiadau myfyrwyr hefyd yn rhan bwysig o gymysgedd y rhaglen. Mae cyswllt cymunedol yn greiddiol i waith Pontio ac mae'r ganolfan yn chwarae rôl bwysig ym myd y theatr a'r celfyddydau Cymraeg.

Mae Pontio yn borth newydd pwysig i fusnesau gael mynediad at yr arbenigedd a'r cyfleusterau sydd ar gael yn y Brifysgol. Bydd y gofod arloesi yn annog cwmnïau i ddatblygu syniadau newydd a'u cyflwyno i'r farchnad. Nod Pontio yw creu effaith barhaol yn y gymuned fusnes.

Saif Pontio ar ochr y bryn rhwng prif gampws y Brifysgol a chanol y ddinas; mae ei mynedfa ar lefel y stryd o fewn pellter cerdded i ganol y dref. Mae'r adeilad yn bont rhwng y Brifysgol a'r gymuned ac mae dyluniad nodedig Grimshaw a'r lleoliad amlwg yn osodiad pwerus ynghylch ymrwymiad y Brifysgol i fywyd diwylliannol y gymuned.

Mae Pontio yn ddatblygiad £50m a gynorthwywyd gan gyllid Cydgyfeirio'r Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru, gyda £3.25m o gyllid cyfalaf gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Chwaraeodd Cyngor Celfyddydau Cymru rôl allweddol wrth gydweithio â'r Brifysgol a Llywodraeth Cymru i sicrhau y cyflawnwyd y cynllun i'r safonau uchaf.

Bu'r ymateb cychwynnol i Pontio, a agorodd yn hydref 2015, yn rhyfeddol o gadarnhaol, gyda llawer o ganmoliaeth i'r adeilad a lefelau uchel o bresenoldeb yn y perfformiadau. Mae'r gwaith rhaglennu nodedig wedi cynnwys ymrwymiad i waith syrcas ac awyr agored, gyda Pirates of the Carabina, cywaith No Fit State, a Theatr Awyrol Tipping Point oll yn ymddangos yn y tymor agoriadol. Ac i'r rhai sydd well gânddynt gynyrchiadau mwy traddodiadol, cyflwynwyd Ruby Wax, Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, Cerddorfa Ffilharmonig Frenhinol Lerpwl, addasiad llwyfan y Theatr Genedlaethol o *'Chwalfa'*, a chynhyrchiad ysgol uchelgeisiol iawn *'Bancsi Bach'* gan Ysgol Tryfan.






▲ Pontio, Bangor
(llun: Eye Imagery)

▶ Cenhadaeth gelfyddydol Pontio

‘Creu rhaglen artistig o’r ansawdd uchaf sy’n arloesol, uchelgeisiol ac yn berthnasol i’n cymunedau.’

# Glan yr Afon

Roedd creu Glan yr Afon, theatr newydd a chanolfan y celfyddydau i'r 21ain ganrif ar lan yr afon yng Nghasnewydd, yn rhan flaenllaw o raglen sylweddol o adfywio. Ers ei hagor, darparodd y ganolfan raglen amrywiol o gelfyddydau byw a gweledol o ansawdd eithriadol i gymuned leol nad oedd wedi gweld celfyddydau proffesiynol byw yn y Ddinas yn rheolaidd ers llawer o flynyddoedd.

Croesawa Glan yr Afon fwy na 90,000 o bobl y flwyddyn, a darparodd nifer fawr o yrfaoedd i bobl leol a channoedd o gyfleoedd creadigol a chymorth i artistiaid a chwmnïau creadigol lleol. Yn ogystal â theatr, dawns a cherddoriaeth o bob math, mae Glan yr Afon hefyd yn cyflwyno pantomeim blynyddol i'r teulu, comedi a dangosiadau sinema. Caiff stiwdios y ganolfan eu defnyddio gan artistiaid sy'n seiliedig yng Nghasnewydd (Mr & Mrs Clark, Cwmni Theatr Tin Shed a Chwmni Theatr Flying Bridge), ac am lawer o flynyddoedd bu'n gartref i Ballet Cymru. Mae rhaglenni ymgyfranogi a datblygu'r celfyddydau yn ganolog i sicrhau bod Glan yr Afon yn ganolbwynt i gymunedau, ysgolion a theuluoedd lleol ac mae'r caffi sy'n edrych dros yr afon yn fan poblogaidd i gynnal cyfarfodydd a chwrdd yn anffurfiol.

Mae Glan yr Afon yn adeilad cyfoes rhagorol sy'n darparu tirnod nodedig wrth fynediad y ddinas, gan hyrwyddo Casnewydd yn gyrchfan ddiwylliannol i gystadlu â dinasoedd eraill sydd â chanolfannau celfyddydol mwy sefydledig. Fel un o'r adeiladau newydd cyntaf yn rhan o'r gwaith adfywio ar lan yr afon, roedd Glan yr Afon yn sbardun o ddatblygiad, a daeth llu o ddatblygiadau eraill i'w ddilyn.

Mae'r prosiectau a'r buddsoddiadau sydd wedi'u cwblhau wedi sicrhau trawsnewid enfawr i'r ddinas, gan gynnwys campws prifysgol o safon byd-eang; adeiladau busnes o'r radd flaenaf; gorsaf reilffordd newydd; marchnad ar ei newydd wedd; gorsaf fysiau newydd; pensaernïaeth eiconig; ac ardal newydd ar lan y dŵr gyda chartrefi a chyfleoedd hamdden. Mae'r gwaith ar adeiladu Rhodfa'r Brodyr, cynllun manwerthu a hamdden newydd Casnewydd, bellach wedi cychwyn. Pan fydd wedi'i gwblhau, bydd yn dod â mwy o enwau adnabyddus i ganol y ddinas, gan gynnwys Debenhams; Next; Nando's; Prezzo; a Cineworld. Bydd cyfanswm buddsoddiadau o £250m yn rhoi momentwm newydd i adfywio'r ddinas, ac yn creu 1,300 o swyddi newydd.

Mae Glan yr Afon yn rhan o raglen barhaus a llwyddiannus o adfywio a lwyddodd i ddenu Cwpan Ryder ac Uwchgynhadledd NATO 2014 i'r ardal, a gynhaliwyd yng Ngwesty Celtic Manor, Casnewydd. Annirnadwy fyddai i'r ddinas fod heb ganolfan ddiwylliannol o bwys wrth groesawu ymwelwyr rhyngwladol o'r fath broffil uchel. Yn ogystal, mae lleoliad y ganolfan, yn agos at adeilad newydd y Brifysgol, yn helpu i wneud i Gasnewydd fod yn ddewis deniadol i fyfyrwyr ym marchnad gystadleuol Addysg Uwch.

Mae'r cynllun cyfalaf £35m, gyda chymorth £8.4m o gyllid cyfalaf Celfyddydau y Loteri, yn dangos sut gall menter ddiwylliannol helpu i sbarduno a bod yn sylfaen i raglen adfywio ehangach. Yn wreiddiol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd a redai Glan yr Afon, ond caiff ei rhedeg bellach gan ymddiriedolaeth annibynnol, Casnewydd Fyw, a sefydlwyd gan y Cyngor, ac mae'n parhau i ysbrydoli cymunedau lleol yng Nghasnewydd a thu hwnt.









▲ Glan yr Afon
(llun: Chris Morse)

▶ *TIR* - Ballet Cymru gyda Cerys Matthews
(llun: Nicolas Young)
Mr & Mrs Clark
(llun: Toby Cameron a Glan yr Afon)

# Canolfan Grefft Rhuthun

Canolfan Grefft Rhuthun yw'r brif ganolfan i'r celfyddydau cymhwysol yng ngogledd Cymru ac y mae'n oriel a sefydliad sydd â pharch ac enw da rhyngwladol. Agorwyd y Ganolfan gan Gyngor Sir Ddinbych ym 1982, a bu'n gweithredu am 20 mlynedd mewn cyfleusterau syml sef cyfres o unedau a ddefnyddiwyd yn stiwdios i wneuthurwyr. Roedd diffyg cydlyniad i'r adeilad ac roedd o ansawdd gwael yn gyffredinol, ond er hynny magodd enw da rhagorol yn sgil ei rhaglenni creadigol.

Yn 2008, trawsffurfiwyd y ganolfan drwy waith ailddatblygu mawr i'r adeiladau i greu strwythur mwy integredig gyda thair oriel fawr o ansawdd uchel; caffi ar wahân lle y caiff gwaith 2D ei arddangos; 6 stiwdio artist a gweithfannau; ac ardal fanwerthu fwy o faint ac wedi'i hail-ddylunio sy'n gwerthu crefftau cyfoes o ansawdd uchel yn gysylltiedig â'r orielau. Roedd cyfleusterau newydd yn cynnwys gweithdy addysg, stiwdios artistiaid preswyl a swyddfeydd. Cyfrannodd Cyngor Celfyddydau Cymru gyfalaf o £3.24m tuag at gyfanswm costau'r prosiect o £4.66m.

Mae'r Ganolfan yn cyflwyno rhaglen newidiol o arddangosfeydd sy'n dangos y goreuon o blith amrywiaeth eang o ffurfiau crefft, gan gynnwys gemwaith, cerameg, gwydr a thecstilau o Gymru, y Deyrnas Unedig a phedwar ban byd. Mae'n curadu arddangosfeydd mawr, rai ohonynt yn cynnig cyfleoedd unigryw i weld gwaith yn y Deyrnas Unedig, ac mae hynny wedi creu proffil ac ymwybyddiaeth o Gymru fel lle sy'n creu a chroesawu ymarfer artistig o'r safon a'r uchelgais uchaf yn rhyngwladol.

Mae'r Ganolfan Grefft ar agor 362 diwrnod y flwyddyn ac yn denu tua 80,000 o ymwelwyr gan gynnwys pobl sy'n ymddiddori mewn crefftau cyfoes o bob rhan o Gymru a thu hwnt. Y mae'n atyniad pwysig i ymwelwyr, gan ddenu pobl o hyd at ddwy awr a hanner i ffwrdd i'r dref, a dyma'r prif gyrchfan yn Rhuthun i dwristiaid a ddaw o Loegr. Mae Pwynt Gwybodaeth i Dwristiaid wedi'i leoli yn uned y Porth Diwylliannol ac mae gwefan y Ganolfan yn denu 36,000 o drawiadau'r flwyddyn, gan dwristiaid a phobl sy'n defnyddio ei hadnoddau ar-lein.

Y mae hefyd yn darparu rhaglen barhaus o sgyrsiau, gweithdai a digwyddiadau gan gynnwys ei rhaglen addysg helaeth a'i gwaith gydag ysgolion sy'n darparu amrywiaeth o raglenni dysgu i fyfyrwyr o bob oed a gallu, gan gynnwys gweithdai a dosbarthiadau meistr dan ofal artistiaid. Mae'r rhaglen yn cynnig offer creadigol i athrawon, cymorth iddynt ddatblygu eu harferion dysgu eu hunain a'r cyfle i weithio'n uniongyrchol gydag artistiaid/gwneuthurwyr. Mae'r Ganolfan yn cyflogi 12 o staff parhaol sy'n gyfwerth â 9 swydd amser llawn, yn ogystal â thechnegwyr, curaduron ac addysgwyr llawrydd ac ati.

Yn ogystal â'i rhaglen ragorol o arddangosfeydd, mae'r gofod gweithdai crefft yn cynnig cyfle i ymwelwyr weld y gwneuthurwyr ar waith a gallant brynu gwaith yn uniongyrchol o'u stiwdios. Mae gofod gweithdy penodol ar gyfer artistiaid preswyl hefyd, i greu gwaith ar y safle a chyfrannu at raglenni. Mae'r Ganolfan yn ganolbwynt creadigol sydd ag enw da yn rhyngwladol ym myd y celfyddydau a chaiff ei hystyried y Ganolfan 'Genedlaethol' ar gyfer y Celfyddydau Cymhwysol a Chrefft yng Nghymru.







▲ Canolfan Grefft Rhuthun

▶ Claire Curneen, Casgliad Cymreig II
(lluniau: Dewi Tannant Lloyd)

# Tŷ Newydd

Tŷ Newydd yw Canolfan Ysgrifennu Genedlaethol Cymru a chaiff ei redeg gan Lenyddiaeth Cymru, y cwmni cenedlaethol ar gyfer datblygu llenyddiaeth. Yn ystod y 1980au hwyr, dechreuodd y perchnogion adfer y tŷ a'r tir, a chan gydweithio â Chyngor Celfyddydau Cymru a'r awdur Gillian Clarke ac eraill, lansiwyd Tŷ Newydd yn ganolfan ysgrifennu Cymru ym 1990.

Mae Tŷ Newydd yn adeilad rhestredig Gradd II* a godwyd yn ffermdy ffrâm coed yn y bymthegfed ganrif. Cafodd ei ddatblygu wedyn mewn sawl cyfnod diweddarach. Dyma gartref olaf y cyn Brif Weinidog David Lloyd George ac mae'r cyffyrddiadau nodedig a roddwyd i'r lle gan y pensaer Clough Williams-Ellis, sy'n enwog am bentref Eidalaidd hynod Portmeirion, yn dal yn amlwg.

Mae miloedd o awduron addawol wedi bod drwy ddrysau Tŷ Newydd sy'n arbenigo mewn cyrsiau ysgrifennu creadigol preswyl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae grwpiau ac unigolion o Gymru, gweddill y Deyrnas Unedig a thu hwnt wedi treulio amser gyda'i gilydd o dan adain awduron proffesiynol megis Gillian Clarke, Seamus Heaney, Carol Ann Duffy ac Owen Sheers.

Fel rhan o waith ailddatblygu sylweddol yn 2005, a gostiodd £4.2m gyda chymorth o £1m oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru, codwyd heulfan ac adnewyddwyd llawer o ystafelloedd ac adeiladau allan hynafol y tŷ. Aeth cyfran sylweddol o'r cyfalaf a wariwyd (tua 65% - £35,000) i gyflenwyr ac artistiaid lleol (e.e. penseiri, adeiladwyr, gofaint, garddwyr tirwedd, crefftwyr llechi, artistiaid gweledol). Yn 2015, diweddarwyd y tu mewn, a chomisiynwyd gweithiau celf yn sgil grant pellach o £30,000, a grantiau gan Sefydliad Teulu Ashley a'r Academi Gymreig. Mae'r buddsoddiad ychwanegol hwn wedi helpu i wella lletygarwch a hyblygrwydd yr ardaloedd cymunol a'r ystafelloedd preswyl.

Gwnaed y prosiect yn bosibl yn sgil buddsoddiad bach gan Gyngor Celfyddydau Cymru, gan helpu Tŷ Newydd i gynyddu lefelau presenoldeb a gweithgarwch masnachu gyda rhaglenni mwy amrywiol ac o ansawdd uwch. Cafod y prosiect effaith ar dwristiaeth ac adfywio lleol drwy adfer ac ailfywiogi adeilad treftadaeth a chanolfan bwysig.

Mae'r buddsoddiad wedi gwella apêl Tŷ Newydd i archebwyr masnachol sy'n cynnal cyrsiau hyfforddi corfforaethol. Roedd archebion 2015 yn uwch na'r flwyddyn flaenorol a bydd y cynnydd yn y lefelau presenoldeb a llogi yn creu incwm ar gyfer cyrsiau newydd.

Bydd y cynnydd yn nifer y cyfranogwyr yn effeithio'n uniongyrchol ar dwristiaeth leol, gan nodi y daw'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr preswyl o'r tu allan i'r ardal leol.

Mae'r mentrau newydd hefyd yn annog mwy o gyswllt â'r gymuned leol, Amgueddfa Lloyd George a Phortmeirion.









Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd
(Llun trwy garedigrwydd Llenyddiaeth Cymru)

# Plant y Cymoedd

Sefydliad cymunedol arloesol yw Plant y Cymoedd sy'n gweithio mewn cymunedau difreintiedig yn yr hen feysydd glo a chyda'r cymunedau hynny. Cychwynnodd y sefydliad ar ffurf Prosiect Cymunedol Penygraig ym 1977 gyda dau aelod o staff yn rhannu swydd ynghyd â llond dwrn o wirfoddolwyr. Gweithiai'n bennaf gyda rhai yn eu harddegau a oedd wedi dadrithio, a hynny yn seler swyddfa'r Gwasanaeth Prawf ym Mhenygraig. Datblygodd hyn i fod yn amrywiaeth eang o wasanaethau cymorth sy'n cael eu rhedeg gan y gymuned leol ac ar ei chyfer.

Ym 1999, newidiwyd y prosiect i Blant y Cymoedd, a datblygwyd Prosiect ArtWorks gyda chyllid Loteri Cyngor y Celfyddydau. Datblygodd ArtWorks rai o'r arferion celfyddydol mwyaf arloesol gyda phobl ifanc yng Nghymru. Gweithia Plant y Cymoedd mewn cymunedau anghysbell a difreintiedig sydd yn aml heb lawer o amwynderau ac adnoddau. Defnyddia'r celfyddydau yn gyfrwng effeithiol i gynnal cyswllt â chymunedau lleol a thanio hyder a hunan-gred, gan weithio i roi i bobl, a phobl ifanc yn benodol, y sgiliau sydd eu hangen i adeiladu bywydau a chymunedau boddhaus.

Ym 1980, a hwnnw'n dadfeilio, rhoddwyd adeilad Capel Bedyddwyr Soar i'r Prosiect gan aelodau'r capel. Cafodd ei droi yn Ganolfan Ffrwdamos gan wirfoddolwyr, drwy gynlluniau creu swyddi, a chafodd ei ailagor yn ganolfan gymunedol ym 1987. Rhwng 2005 a 2007, datblygwyd yr adeilad gyda mwy na £3m o fuddsoddiad cyfalaf, gyda chymorth o fwy na £1m gan raglen cyfalaf Loteri y Celfyddydau. Yn 2009, dewiswyd Plant y Cymoedd i fod yn un o bum Prosiect yr Olympiad Diwylliannol yng Nghymru, gan greu cyswllt rhwng y Cymoedd a Threflannau yn Cape Town, De Affrica. Penllanw hyn oedd prosiect Mzansi Cymru a chynhyrchiad yng Nghanolfan Mileniwm Cymru gyda pherfformwyr o Dreflannau De Affrica a'r Cymoedd, a rhoddwyd sylw i'r prosiect mewn rhaglen ddogfen gan BBC Cymru.

Trawsnewidiwyd Capel Soar i fod yn adeilad i'r 21ain ganrif, ac mae'n dirnod lleol trawiadol yng nghanol Penygraig. Gyda'i atriwm gwydrog yn taflu goleuni, y mae'n hen adeilad ag iddo ystyr a diben newydd, ac yn fynegiad o hyder sy'n llawn ysbrydoliaeth. Y mae'n ddatganiad cyfoes mewn cymuned lle mae llawer o adeiladau wedi colli'u diben a phrin yw'r adeiladau modern o ansawdd. Cafodd y datblygiad effaith sylweddol ar ganol y dref, gan gyfrannu'n uniongyrchol at adfywiad y brif stryd sydd bellach yn brysur heb lawer o siopau gwag, ac yno griw o fasnachwyr gweithgar.

Bu buddsoddiad Cyngor Celfyddydau Cymru yn hanfodol wrth alluogi'r prosiect i fwrw ymlaen ar adeg pan oedd yn ei chael yn anodd cau ei fwlch cyllido. Y mae'n enghraifft ragorol o ddefnyddio cyllid Loteri y Celfyddydau gyda phartneriaid eraill i wneud pethau'n bosibl.

Yn 2008, Plant y Cymoedd oedd enillydd Gwobr Adfywio Trefol Prydain am Adfywiad a Ysbrydolwyd gan y Gymuned. Ond ni ddaeth y twf na'r uchelgais i ben yn y fan honno.

Yn 2011, cododd £500,000 i brynu'r Hen Ffatri Bop (y Ffatri bellach) ym Mhorth er mwyn sefydlu Canolfan i'r Diwydiannau Creadigol.

Mae Plant y Cymoedd bellach yn gydymaith 'Tate Exchange', rhwydwaith o sefydliadau ar draws y Deyrnas Unedig sy'n cydweithio â Tate Modern yn Llundain.










▲ Capel Soar, Plant y Cymoedd
(lluniau: Jon Card)

▶ *Torchbearers*
Prosiect Mzansi Cymru, Plant y Cymoedd
(llun: Glenn Edwards)

# Canolfan Mileniwm Cymru

Roedd creu Canolfan Mileniwm Cymru, sy'n ganolfan o safon byd-eang i'r celfyddydau perfformio, yn ddatganiad amlwg o hyder yn niwylliant Cymru ac yn gam sylweddol ymlaen yn y gwaith o adfywio ardal flaenorol y dociau ym Mae Caerdydd. Bu'r adeilad mawreddog hwn, y ganolfan fwyaf i'r celfyddydau byw y tu allan i Lundain, ar flaen y gad wrth greu ardal newydd a bywiog o'r ddinas, gan osod y safon i'r holl ddatblygiadau eraill yn yr ardal.

Saif y Ganolfan bellach ynghanol yr ardal dwristaidd boblogaidd hon, gyda'i llu o fwytai ac atyniadau eraill, ac mae'n dirnod i'r ardal. Chwaraeodd rôl bwysig wrth drawsnewid y dirwedd yn y rhan hon o'r ddinas, gan gyflwyno o blith y cynyrchiadau gorau yn y Deyrnas Unedig ym maes y celfyddydau byw i gynulleidfaoedd o bob rhan o Gymru a thu hwnt, gan gynnwys rhediadau hir o sioeau poblogaidd y West End (teithiau *Wicked* a *The Lion King* yn y Deyrnas Unedig). Mae'r Ganolfan yn denu perfformwyr a chwmnïau sy'n adnabyddus drwy'r byd, megis Carlos Acosta, The Mariinsky Theatre a Cape Town Opera.

Y mae hefyd yn darparu cyfleusterau cynhyrchu, technegol, ymarfer a gweinyddol i'r cwmni preswyl, Opera Cenedlaethol Cymru, sydd gystal â'r hyn sydd gan unrhyw gwmni opera yn y byd. Mae'r Ganolfan yn gartref i saith o sefydliadau diwylliannol eraill: Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru; Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC; yr Urdd; Llenyddiaeth Cymru; Hijinx; Tŷ Cerdd; a Touch Trust.

Mae'r Ganolfan hefyd yn rhaglennu amrywiaeth eang o weithgareddau am ddim gan gynnwys perfformiadau byw, gwyliau diwylliannol (Mis Hanes Pobl Dduon a Diwali), a gweithgarwch crefft i'r teulu. Yn aml, bydd y digwyddiadau yn ymestyn allan o'r adeilad i ardal Bae Caerdydd o amgylch, gyda pherfformiadau a gwyliau awyr agored, megis gŵyl boblogaidd Blysh yn yr haf. Mae'r digwyddiadau a'r gweithgareddau ychwanegol hyn yn creu bywiogrwydd a ffocws i ymwelwyr, gan ddod ag ardal glan-y-dŵr Bae Caerdydd yn fyw.

A hithau'n ymrwymedig i ysbrydoli pobl ifanc a darparu cyfleoedd a all newid bywydau drwy'r celfyddydau, mae'r Ganolfan wedi cynnal cyswllt â 200,000 o gyfranogwyr hyd yma drwy weithdai, cyswllt ag ysgolion a nifer o brosiectau uchelgeisiol, gan gynnwys gwaith allgymorth gyda phlant yn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru.

Ers iddi agor, cyflwynodd y Ganolfan fwy na 4,000 o sioeau a gweithgareddau, a cheir mwy na miliwn o ymwelwyr y flwyddyn; amcangyfrifir ei bod yn cynhyrchu mwy na £78m y flwyddyn i'r economi leol ac yn darparu mwy na 1,000 o swyddi. Dyma'r atyniad sy'n denu'r nifer fwyaf o ymwelwyr yng Nghymru, a'r trydydd atyniad diwylliannol mwyaf poblogaidd y tu allan i Lundain.

Rhoddodd cymorth ariannol Cyngor Celfyddydau Cymru y tawelwch meddwl a'r hyder i gynllunio a buddsoddi yn yr ased cenedlaethol hwn ar gyfer y tymor hir. O ganlyniad uniongyrchol i gymorth cyfalaf rheolaidd a pharhaus, bu'n bosibl cynnal y Ganolfan i safon gwirioneddol fyd-eang, gan arwain at gydnabyddiaeth gan ganolfannau eraill a gwobrau sy'n gydnabyddedig yn rhyngwladol gan gynnwys BIFM a Gwobr y Frenhines am Fenter ar gyfer Datblygu Cynaliadwy. Mae Canolfan Mileniwm Cymru yn rhagweithiol iawn wrth rannu gwybodaeth am gynnal sefydliad creadigol cynaliadwy mewn cynadleddau ac uwchgynadleddau ledled y Byd. O Indonesia i Mecsico ac Efrog Newydd, mae'r Ganolfan yn codi proffil Cymru a diwylliant Cymru ac yn cyfrannu at ddatblygiad sector y celfyddydau yn fyd-eang.







▲ Canolfan Mileniwm Cymru
(llun: Sandra Duncan)

▶ Mis Hanes Pobl Dduon
(llun: John Collingswood)





*Llun uchaf:* Casgliad Cymreig II, Canolfan Grefft Rhuthun
(llun: Dewi Tannant Lloyd)

*Llun isaf:* Diwrnod Agored Pontio
(llun: Iolo Penri)